**Tangnefedd**
(20191229)

Eiliad o hedd trugareddus - eiliad
Mynwes haul glan ynys;
Cornel ddistaw, draw o'r drys
Yn gwau'r cymylau melus.

(Craig Adwy Wynt yn ei gogoniant.)

**Imaniwel**
(20191228)



Peri ystyr yw'n peiriant - ein harfaeth,
Dynoliaeth yw'n helwant;
Y bri hwn yw ein breiniant;
Anhepgor yw cyngor Kant.

(Darllen am Kant. Defnyddid "bri" yn yr ystyr "llw" yn y fan hyn.)

**Disgwyl**
(20191225)

Oasis gwyll yn disgwyl swyn y sêr,
Noson bêr yn berwyl:
Boddgarwch, heddwch a hwyl
Oriau cymaws naws noswyl.

**YGwrthrhyfel**
(20191223)

I falu grym stormfilwr – drych i fedr
Uwchfeidrol â chyflwr
Sanctaidd y Jedïaidd dŵr,
Ac urddas Rey Nen-gerddwr.

(Gweld y rhan olaf o'r gyfres bresenol o Star Wars neithiwr.)

**GwasanaethNadolig**
(20191222)

Cysyniad cread y crydd – un geni
Gwahanol, ac awydd
Troi'r rhod, â hedd hynod ddydd
Yn galan gyda'n gilydd.

(Gwasanaeth hyfryd yn y capel y bore 'ma.)

**Canu'nYCastell**
(20191220)

Mintai yn gollwng mantell, a llonwyd
Lle unig;ystafell
Yn don o atgofion gwell:
Cystal awyrgylch castell.

(Canu rownd dre neithiwr! Hwyl!!)

**Gobaith**
(20191215)

Y gred i ethol gwŷr doethach – fflachiad
Adfywiad o fawach;
Argoel unig awr glênach:
Dyna bwys llygedyn bach.

(2000 yn ymuno â YesCymru mewn 48 awr!)

**1212**
(20191208-15)



Awdl anelwig genedl yn wylo – hirynt
Â'r rhewynt yn rhuo;
Blin â'r deri'n ymdaro:
Awr ddu â Chymru o'i cho'.
Anog gwyll o leni cau yw perwyl
Gwyl diffodd y golau;
Gwyl Brit, a Brecsit y brau;
Gwg yr hil, gau garolau.
Gweld ein gwg - â gweld yn gur - argoel hyll
O Fôr Glas, tranc Llafur;
O'r gyflafan, llwyfan llyr
Anibyniaeth Albanwyr.
Yes i Gymru, yes i gamre'n arwain
O'n hiraeth i'n heulwen:
Gwawd y geirffug 'di gorffen;
Arfedd sylwedd lle bu sen.

(Wythnos ddu i'w anghofio.)

**Mochyndra**
(20191206)

Baw cyfalafiaeth ddi-baid – sen heb wawr
Sy'n boen i bob enaid
Llegach a guddia'u llygaid
Rhag y cythrwm llwm a'r llaid.

(Pobl yn dewis ethol llywodraeth sy'n fodlon â thlodi ac anfantais.)

**GerYLune**
(20191204)



Caru'r hedd mae'r creyr ei hun - hedd a gwedd
Y gwyddau yn esgyn,
Á dwy alarch yn dilyn;
Rhodd y wawr i'r broydd hyn.

(Rhedeg ar lan y Lune ger Caerhirfryn.)

**PeGwelitHyn**
(20191204)

Dewis unig disyniad oes anwar
Disynwyr, difwriad;
Yng ngwarth pur gwŷr digariad,
Wylit am Frecsit a'i frad.

(Pe bai LlEIlO a GLlO yn gweld y byd sydd ohoni ...)

**EtholFfŵl**
(20191203)

Cyfnod amdrist Ffasist ffol – mae Boris
Yn embaras hollol;
Anonest, tra hunanol;
Ond gwast, a'i lanast, a'i lol.

(Ffordd yn y byd y mae'n bosib fod un fel hwn yn enill etholiad?)

**Biwt**
(20191202)



Hafn oer ger afon araf – wyneb ael
Parc Biwt godidocaf;
Enyd hoff ar lan y Taf
Ag ewyg cyfarch gaeaf.

(Yng Nghaerdydd i weld Cymru'n maeddu'r Barbariaid â Gatland fel rheolwr. Mynd i redeg drwy Erddi Soffia a Pharc Biwt. Mae'r gaeaf wedi cyraedd.)

**Dihuno**
(20191130)

I lanerch y goleuni cyfagos
'Rol hirnos â'i oerni;
Unig hud haul yn codi
I fywhau'n heneidiau ni.

(Yr haul yn wych wrth godi dros Fryniau Clwyd y bore 'ma.)

**NewidByd**
(20191124)

Arwydd gwendid, gellid gwaeth? Distewi
Rhag seiri sensoriaeth?
Lleni cau, a'r golau'n gaeth?
Rhaid celu'n radicaliaeth?

(Protestio di-drais yw'r ateb?)

**Ymsuddo**
(20191122)

Hogen, cadw fi'n agos – am dy wên
Mae dyn yn ymaros;
Cyffur dy lifog logos,
Nwydol lif yr afon dlos.

(Ar lanau'r Tawe.)

**Falmouth**
(20191121)

Yn awr i fynwes Nirfana - hwyldaith
I gynilder morfa;
Pleser awydd, deuddydd da
Nefolaidd Aberfala.

(Rhoi sgwrs yn y brifysgol yn Falmouth. Aberfala yw'r enw Cernyweg am Falmouth.)

**Ceinder**
(20191117)

Dyddiau o win diddanwch, a nosau
Anwesol dawelwch;
Cydnabod yn llwyr, trwy'r trwch,
Hynaf wyrth Ei brydferthwch.

(Rhedeg a meddwl.)

**YGraigArw**
(20191117)



Marw'n chwilio am eirie' i nodi
Fy nwydau am gartre';
Hen ganiadau, lleisiau'r lle:
Yn daeog wyf i Dawe.

(Lawr yn GG.)

**Jezza**
(20191117)

Daw'r sawrus ail-drysori o lwyfan
Hen Lafur i'n gloywi?
Cynhyrfwn! Credwn y cri:
Yn dâl cawn ail-wladoli!

(Llafur yw'r gobaith gorau yn Rh.)

**Meindofyrmatyr**
(20191115)

Mae tyrau oed materol yn crafu,
Yn crefu'n dyfodol;
Nefoedd eiliad feddyliol
Yw'r wyrth bydd genym ar ôl!

(Ateb i A. a Mark Twain!)

**Oed**
(20191114)

Rhoi gwên yn sylfaen i'r gwaith o lunio
Datblygiad, cael effaith;
Coel araf, duaf y daith:
Adnabod gwrid anobaith.

(Mynd yn hen.)

**Isotôp**
(20191113)

Yn y gwair, llwch yn gorwedd o fynwes
Dadelfenol lygredd;
Edrydd yr ymbelydredd
Am yr hyll yma'm mêr hedd.

(Meddwl am effeithiau Chernobyl.)

**Chernobyl**
(20191110)




Cyni y cnoi, canu cnùl; nos ffwrnais
Uffernol, cri'r engyl;
Rhanu o boen Chernobyl,
Y wyrth a drodd yn erthyl.

(Gwylio dechrau'r gyfres Sky/HBO Chernobyl. Methu gwylio mwy. Erchyll. A siarad amdano yn y capel 'fory.)

**YTlodion**
(20191106)

Golgotha'r bobl dda i ddim – hoff esgus
Y Ffasgwyr dros gyni
Mewn byd hylltod yn codi;
Marw'n awr mae'r anawim.

(Beth am dlodion ein byd?)

**Cwymp**
(20191028)



O bobtu'n mynu a-men – i bobtu'n
Gwadu brigau'r goeden;
Efydd ol o'r nefoedd wen,
Euraidd elor y ddeilen.

(Rhedeg i Rozvedčiky trwy fyd o ddail.)

**CylchfanBriec**
(20191028)

Gyfeillion, daw'r awr, daw'r dydd i fentro,
I goelio 'da'n gilydd;
Dwyn yr hawl i rodio'n rhydd:
Ymuno'i goncro'r mynydd.

(YesCymru allan yn Rhuthun heddiw.)

**Skřivan**
(20191028)

Iriad prydferth y perthyn – yn falm mwyn
Fel mana, gwin gymun;
Olew pur er celu'r cun
Am byth yw balm y bwthyn.
(Bwrw'r Sul yn y bwthyn. A'r byd yn ei le!)

**Střižkov**
(20191025)

O faes coeth ger Chrastavská – daw eiliad
I weled gwawr Praha;
Gorau'r wawr, geiriau'r aria:
Ton o foes Destinová.

(Cantores opera oedd Ema Destinová; mae cofeb iddi ger cartref děda a babička, mewn parc yn edrych dros y ddinas.)

**BronYno!**
(20191025)

Anaf, haint, yn y fantol nodd cynydd
Cenedl! Angenrheidiol
Distewi ffantasi ffol
Ar fin rownd cynderfynol!

(Y dydd yn agoshau!)

**Meddwl**
(20191021)

Dod i fod ar ben fy hun 'da'r distaw'n
Hel canllaw, creu cynllun;
Anedd goll pen mynydd gwyn
Er oedi 'nghoed yr rhedyn.

(Wâc i ben mynydd y Daren i weld y machlud.)

**Dilyw**
(20191020)

Cresendo dŵr yn codi fel tonnau
Gyda'r dagrau digrif;
Aur ddiferion aneirif
Fel gwên, fel llên yn y llif.

(Gwlaw mawr bore Gwener.)

**Norwy**
(20191017)

Rheidrwydd yw mynd i grwydro i nefyn
Scandinafaidd eto;
Cymdeithasal, buddiol bo
Oed anweslyd yn Oslo.

(Amser braf yn Oslo!)

**Gweld**
(20191014)

Boreuol, oleuol lith – naws arlwy
Gysurlawn di-rhagrith;
O'i darllen, deall bendith
Ddistaw yn y gwlaw a'r gwlith.

(Mynd i Oslo'r bore 'ma, codi'n hwyrach; bore hyfryd i redeg!)

**Gweld**
(20191008)

Mynu celu o'r cawlach – unig rhawd
Pen Y Graig oedd ddoethach;
Fel gwydyr yw'r awyr iach
I anabledd y boblach.

(Popeth yn glir o ben mynydd. Pen Y Graig oedd enw'r fferm ar y Daren, cyferbyn â Phantyffynnon. Mae'r ffermdy'n adfail bellach.)

**GweddiAtBoris**
(20101006)

Dyro ini d'arweiniad – cyfaredd
Dy fawredd, dy fwriad,
Udd, a'th gerydd digariad;
Dirdynol dy frol, dy frad.

(Ffars.)

**Pant-teg**
(20191006)

Ty mab Mair, gair yn gareg – ty nefol
Arf ysol gwir foeseg;
Cymun, dymun, ty dameg
Hoelion wyth tylwyth Pant-teg.

(Rhedeg i ben mynydd y Daren, a'r capel gwag – yn llawn atgofion - ar fynydd Alltygrug cyferbyn.)

**YrHydref**
(20191005)

Mor rhwydd â'r haf o'r flwyddyn – a rheidrwydd
Yw'r hydref drwy gynllun
Cymaint cynt â'r gwynt yn gun
A hail o ddail i ddilyn.

(Mynd i ben mynydd; yr hydref yn ei le heb os.)

**Priodas**
(20191004)



Camre doethed gymdeithas – cyn deced
Cyd-gerdded ag urddas;
Angori greddf yng ngair gras,
Peri hud mae priodas.

(Meddwl am benwythnos diwethaf.)

**OnBearRidge**
(20191002)

Ysbrydoliaeth wiw o'r diwedd – actio
I fridio chwilfrydedd,
Magu ewyg. Cwmgïedd
A chariad at ein gwlad. Gwledd!

(Gweld Rhys I yn chwarae yn y Sherman yng Nghaerdydd.)

**CymynBoris**
(20190925)

Rhin y ffwl yw tori ein ffydd – un dwl
Y diawl yw'n harweinydd;
Nawr ein her yw rhanu'r nudd:
Hau golau gyda'n gilydd.

(Yr uchel lys yn dedfrydu'r llywodraeth yn euog o ddiddymu Ty'r Cyffredin heb achos.)

**Darfodedig**
(20190924)

Ei derfyn toc cyn cinio'n ôl logos
Esblygiad. O'i gofio'n
Rhith byw, llun o hiraeth bo
Diwedd dedwydd y dodo!

(Cyngerddau yn Llanelwy dydd Sadwrn â Chôr Penbarras yn canu am y dodo!)

**Paris**
(20190919)

Arobryn oriau hybris, oriau swyn
Glanau'r Seine dy ddewis;
Gweli mai medi yw'r mis
Am hun haf puraf Paris.

(Mewn cynhadledd ym Mharis.)

**MM**
(20190915)

Nodau mawr a chordiau mân – yn llifo
O'u cofio fel cyfan;
Am orchest, Meibion Marchan:
Canfod nodau gorau'r gân!

(Y meibion yn cael hoe am ychydig ar ol cyngerdd Pwllglas.)

**Priodas**
(20190914)

Dwylo'n dal, a dal yn dynn - i ranu'r
Wên, ac ambell ddeigryn;
Á logos diddos deuddyn,
Heddiw, 'nawr, mae'r ddau yn un.

(Ar gyfer priodas K a Ch.)

**Datganoli**
(20190912)

Deuwn at ddechrau diwedd oed undeb
Ein "Prydeindod" rhyfedd
Á hawl prifweinidog hedd
Yn awr i ddweud anwiredd?

(Llanast San Steffan yn mynd o ddrwg i waeth.)

**Testament**
(20190907)

Geiriau glân y gân gynes yw ein sael
Rhag salwch a gormes;
Eisiau byw yw'n llyw, a'n lles:
Ffaelu Mephistopheles.

(Darllen am Goethe a Faust.)

**SanSteffan**
(20190906)

I'r dibyn 'da'n heilunod eithafol
A thwf eu hanwybod;
Unben sal yw'r Baal sy'n bod:
Sen yw Boris yn barod.

(Llanast Llundain.)

**YrElyrch**
(20190904)

Mae hwn yn bwn arbenig. Swyn ai sen
Bod pen copa unig?
Hen geidwaid bendigedig
Yn llwyddo brwydro i'r brig!

(Y Swans ar ben y domen!)

**DiweddHaf**
(20190831)

Heulwen o gofio'r elwydd – gwynfydig
Bu'r orig 'da'r irwydd;
A cholled, syrffed swydd
Yn nagrau'r hen unigrwydd.

(Haf yn dod i ben a'r plant wedi diflanu unwaith eto, a'r tŷ yn dawel!)

**CymruFydd**
(20190826)

Cyfle, nod dyngedfenol: i gallio
Er gwella'n dyfodol;
O nudd ffafr Seisnigrwydd ffol,
Daw rhyddid ffedereiddiol?

(I ble'r aiff ymgyrch "Yes Cymru", 'sgwn i?)

**YCemegolyn**
(20180925)

O ogof laith bywydeg flin – unig reddf
Un â grym dros feithrin;

(Bore Sadwrn gwych!)

**Cyfarch**
(20190510)

Gras yw rhoi gair o groeso – cynig cun
Cynig gwên a lwyddo;
Gwerth mynd i'r trafferth pob tro:
Cwl ydyw cynig "helo"!

(Mynd i redeg a theimlo 'mod i'n cyfarch cant a mil o bobl bob bore!)

**CynghrairYPencampwyr**
(20190510)

Eirias nwyf, fe ddaeth Spurs yn ol – caniad
Y Kop, tro angerddol;
Gorau gwyrth yw sgorio gôl
Ar fin y gêm derfynol!

(Lerpwl a Spurs – ac Arsenal a Chelsea – i gyd yn cyraedd rownd terfynol cystadleuaethau Ewropïaidd.)

**Cydlifiad**
(20190507)

Ar y naw, deuawd o Dawe, o Dwrch
Ar daith lawr o'r bane'n
Dilyn chwant pob nant o'r ne'
I gael hun ger y glane.

(Rhedeg yn dir Ynysgu yn Ystalyfera ger cydlifiad y Tawea'r a'r Twrch.)

**Gwanwyn**
(20190506)

Hedd o ranu â'r ddraenen, blagur mân
A thân o eithinen;
Gwanwyn mud y byd uwchben
Gwelir ar dir y Daren.

(Ar ben y mynydd – bendigedig!)

**Hon**
(20190506)

Lodes, nef yw cael oedi am enyd
Mwynaf yn dy gwmni;
Gwynfyd tecau d'aeliau di,
A-men, gwên dy gymoni.

(Treulio'r penwythnos yn tacluso'r tŷ yn GG.)

**Llundain**
(20190505)

Acw mae doethion cymdeithas – elw,
Cyfalaf eu pwrpas;
Crescendo o'r credo cras:
Her i ddynion yw'r ddinas.

(Yn Llundain am wythnos, wedi blino'n lân, ac wedi alaru ar y lle a'i ddiwylliant i ryw raddau. Anodd iawn byw yno.)

**Iwerddon**
(20190428)

Eiliad aur â melodi o leisiau
Hwylusaf yn gwmni;
Natur cân Letterkenny:
Adar mân â'u do-rei-mi.

(Penwythnos hwylus dros ben – a blinedig – yn yr Ŵyl Ban-Geltaidd yn yr Iwerddon.)

**Derbyn**
(20190421)

Adeiladu aelodaeth – daliadau
Aelwydydd, cymdogaeth;
Cyplysu Iesu a iaeth
Yn dyrau iachawdwriaeth.
(TTSLBI yn cael eu derbyn yn y capel dydd Sul.)

**Gwawr**
(20190420)

Ôl oed y croeshoeliedig,
Oed o frad rhyw gadfrydog,
Oed o ormes a dirmyg
Cyfrol Offeiriadol reg;
O bydew'r Iddew a'i ŵg,
Trawsnewidiad byw, llyw llug
Gwawr diangof ogof wag.

**EinBaich**
(20190419)

Anodd materiaeth unig – a salwch
Pob croeshoeliad dieflig;
Dim canran i'r gwan o gig
A gwaed yr oen Pasgedig.

(Y Pasg.)

**Bwganod**
(20190416)

I wynebu, ac adnabod – i weld
Meidroldeb, gwell trafod
Geiriau'r gyfrol, nefol nod,
Na gweini ar fwganod.

(Pregeth am fwganod dydd Sul.)

**SulYBlodau**
(20190413)

Ystyr hedd yw stori wen – goleuad,
Cenad yn nos cynen;
Hynod grym adnod, a-men
I ryddhau'r oen o'r ddraenen.

**Machlud**
(20190407)

Draen hydref fflwndra 'nwydroed – cof heulwen,
Elusen o lasoed;
Heddiw, yfory, addoed:
Felly patrwm codwm coed.

(Cerdded yn GG a'r atgofion yn llifo. Mynd yn hen.)

**Hoe**
(20190406)

Haf yw awr o adferiant 'da'r Daren
Aur a'i dŵr am seibiant;
Hafod i nofio 'da'r nant,
Sain myfyr pur ei peiriant.

(Fel haf yn GG, a'r Daren yn ei gogoniant.)

**CyffredinIawn**
(20190405)

Rhywrai dienaid ceid yno – ffyliaid
Yn ffaelu dihuno
O'r diddyfodol frolio:
Twyll llond ty'r twll-yn-y-to!

(Gohirio trafodaethau gwirion Ty'r Cyffredin am fod dŵr yn dod trwy'r to!)

**Hona**
(20190405)

Gorau ffrind gau refferendwm – di-raen
D'arweiniad, di-batrwm;
Creaist ddieflig rhigwm:
'Sgen ti g'wilydd, llywydd llwm?

(Teresa May yn mynd o ddrwg i waeth.)

**BoreGwyn**
(20190403)

Yn wawr cyn oered,
Ond mwyn 'di myned
Ag eirlaw'n gwrlid;
Ceinder yw canfod
Cynwrf y canniad.

(Cawod o eirlaw'r bore 'ma.)

**I'nCynrychiolwyr**
(20190402)

Anweddus yw'n gwleidyddiaeth – angeuol
Seneddol weinyddiaeth;
Lladron lle bu llywodraeth:
Yn enw'r gwir, gellir gwaeth?

(Y llanast yn llusgo 'mlaen yn ddi-drywydd.)

**Aur**
(20190331)

Ar waith, ar waith mae'r eithwen – ag awydd
Â'r gaeaf yn gorffen;
Ebrill sy'n tanio'r wybren:
Oriel aur yw'r hwyrol wên.

(Ar y silff i weld y machlud; bendigedig eto.)

**Creu**
(20190330)

Gweladwy rhod ysglodyn;
Dyma gamp y dim ac un:
Sawl 'fory, sawl fi?
Sawl calon, sawl ci
A gwawr i'w gori?
Sawl cadair, sawl cyw?
Sawl diawl a sawl duw
A deilen mewn dilyw?
Sawl miri, sawl môr?
Sawl cariad, sawl côr
A gwaedd diegwyddor?
Sawl taeog, sawl tŷ?
Sawl llanerch, sawl llu
Â chledd; a chladdu?
Lleuad, haul a llaw y Tad:
Syml, hawdd mewn simiwleiddiad.

(Gweld ci coli yn y coed ger tŷ D&B ym Mhraha, yn debyg iawn i'r ci byddwn yn gweld ers talwm wrth rhedeg yn Rhuthun. Beth yw'r siawns mai'r un ci oedd yma?)

**Gwawr?**
(20190325)

Adref yn oerni'r frwydr af inau
Am funed i fwydro
Fod plaid y ffyliaid ar ffo
A'r gwanwyn ar egino!

(Dim ond un pwnc sy'n mynu sylw.)

**Penblwydd**
(20190324)

Dy lun ar sgrîn i dy loni – gafael
Atgofion yn gwmni
Haeddianol, uwch brol a bri
A wac rhyw hac ar wici.

(Penblwydd Z, a rhywun wedi ysgrifenu tudalen wici amdano.)

**Česky**
(20190321)

Hyn yw arfer â'r geirfa - hynod wers
Dweud "Ahoj"! Cans wilia
"Dobrý den" nid "Bore da"
Mae rhywun yma 'Mhraha!

(Dathlu penblwydd Z yn 85.)

**Alban**
(20190320)

Lleda'r ysbryd lleuadol i draethu
Am drothwy tymhorol
Dros ddirgelwch duwch dol
A sêr y nen asurol.

(Ar ben y silff. Cyhydnos, lleuad lawn a machlud anhygoel.)

**Egwyddor?**
(20190320)

Rhyfeddod gair cymodwr ni ildiai
I faldod eithafwr;
Cyngor ffurfiol, dynol dŵr
O warediad: siaradwr!

(Bercow yn corddi'r dyfroedd.)

**YFelen**
(20190318)

Tecaf flodyn, gwyn a gwedr – un teilwng
Â'i petalau hyfedr;
Wyneb haul pob un peledr,
Wyneb hael cenhinen Pedr.

(Y cenin Pedr yn eu gogoniant yn yr ardd – mis a haner ar ol eu chwiorydd ar y banc tu fa's i'r ty.)

**YTirCanol**
(20190317)

Anorfod creu'r holl dyrfedd – hoff yw rhai
O'r ffraeo diddiwedd;
Onid haws cyfamod hedd?
Hen bos canfod cydbwysedd.

**Cyffro**
(20190316)

Adeg wyllt â'r byd o'i go' - a'r cedyrn
Fel y coed yn siglo;
Hyrt o wynt am godi'r tô
Yw'r awydd heddiw'n rhuo.

(Gwynt mawr, Brecsit a Champ Lawn!)

**TrafferthMewnTwlc**
(20190315)

Cyffredin, haint y cenfaint cas – Tŷ'r hyll,
Â'r arddull diurddas;
Tŷ'r sâl dan ofal hen ast;
T'risa Mê, mae'r lle'n llanast!

(Cryd – nid crud – "democratiaeth"!)

**Newid**
(20190314)

Rhygnu oed oerog yn dirwyn i ben,
A'r byd ar droi'r olwyn;
Per oleuni'n lloni llwyn
Â gweniaith gwyrth y gwanwyn.

(Y tywydd yn dod.)

**Hoe**
(20190309)

Muned fud 'da'r byd uwchben fy mwriad
Ar alwad yr heulwen;
Hedd gwylaidd y praidd a'r pren,
Hedd yr oenig a'r ddraenen.

(Bore bendigedig yn GG.)

**FfyliaidEbrill**
(20190308)

Byw'n y sen, heb un syniad yw artaith
Hurtwch ymadawiad;
Crefu nawr am undyn mad
I ranu gwir arweiniad.

(Gwrando gyda J a T ar QuestionTime neithiwr. Anobeithiol.)

**BoreBraf**
(20190307)

I'r gwynt, gorau hynt hwntw – a'r grug aur,
A'r Graig Arw'n ferw;
Gwlith a lledrith, ar fy llw,
Ton argoelion yn galw.

(Bore hyfryd yn GG.)

**DeallYDail**
(20190306)

O'r briw, fferamonau brad yw gwewyr
Y gwair ar ol toriad;
Dameg biocemeg cad,
Synhwyro crio'r cread.

(Darllen am blanhigion yn rhyddhau cemegolion er rybuddio'i gilydd am fygythiadau.)

**NosLun**
(20190304)

Cyd-dynu, am drechu o drwch blewyn,
Heblaw am ryw hyrtwch;
Olaf waith dihangol fwch,
Olaf firi a'i flerwch.

(Colli yn y funed olaf.)

**DafPC**
(20190303)

Coeli di, Mair, y crefai'r crydd ben call
O Bencoed yn drefnydd?
Camre'r nôs, a'r bore bydd
Dan ofal dyfal Dafydd.

(Cofio Daf.)

**DyddGwenerOChwefror**
(20190301)

Eto'i adael Porth Swtan,
Ôl haul yn cusanu'r lan;
Gorau geiriau'r ewyn gwyn,
Odlau Ynys Y Fydlyn.
Awen achen Pont yr Hwch,
Deheulaw hen dawelwch;
Hoff seintwar yr hygar haid,
Rhin Ynys y Moelrhoniaid.
I gysgod benywod noeth
Â gwên genethod gwyngoeth;
Anog bro froniog, di-frys
I adrodd cân Llanrhwydrus.
Cymhleth hanes Bae Cemlyn:
Blwch gwenwynig, dieflig dyn;
Pelydrau gwaeth, caeth mewn cof
O'r wig i Borth yr Ogof;
A cham wrth gam i Gemaes:
Medi'r hwyrddydd llonydd llaes.

(Mynd i gerdded 'da K wythnos diwethaf.)

**21-13**
(20190226)


Rhag anel taclo'r Gwynion, a moroedd
Muriau cyrff y Saeson;
Rhedeg iach parod Gochion:
Daw'n cewri, gŵyr Dewi'n don.

(Cymru'n maeddu Lloegr!)

**Awen**
(20190221)

O gyffro darfod erfyn – mae chwyldro'n
Y dwylo yn dilyn;
Wedi twtio, lliwio'r llun:
O greu ongl, magu'r englyn.

**Blodau'rEithin**
(20190217)

Geiriau gras ag eurog rin - melynion
Am loni 'nghynefin;
Golau haul, diwygiol hin
Ar waith ym mlagur eithin.

(Yr eithinen yn ei gogoniant ar fynydd y Daren Wyddon.)

**LlynYFan**
(20190216)

Yn y distaw, tinc alaw'r
Adian ger Llyn y Fan Fawr;
Rhethreg y gareg ar goedd,
Drws i dreiliad yr oesoedd;
Camau'n gwau i bau uwchben
Anelwig yn y niwlen.
Ar wyneb rydd bryniau brau
Ôl obri dros hen lwybrau;
Byr egwyl ar y brigyn,
Orig oer 'da'r eira gwyn;
Acw lle godidocach,
Nefyn foes Llyn Y Fan Fach;
Nyth i nwydau pob neithiwr,
Mwynhau mae'n doeau'n y dŵr.

(Cerdded am 6 awr drwy'r gwynt a'r gwlaw o gylch banau Sir Gaer ar ben Cwm Tawe. Bendigedig!)

**Bore**
(20190216)

Â cham i niwl dychymyg – ar y tir
Gwridai'r tarth yn rhyfyg;
Gwawrio oer tan Alltygrug:
Erw bêr berw barug.

(Yn GG ar fore oer â tharth yn drwch uwch y llwydrhew.)

**YCristion**
(20190213)

O ddrain pigog f'euogrwydd – fy nefyn
O afael ansicrwydd;
Dyma 'nghyflog selog, swydd
Er da gras caredigrwydd.

(Gwasanaeth hyfryd yn y capel, bore Sul diwethaf.)

**Abergwyngregyn**
(20190209)

Ei chytgan bloeddia'n y blawr – o'r eira
A'r oerwynt ei gwinllawr;
Dŵr o fêr y Rhaeadr Fawr,
Hoff arsain, cân ei phersawr.

(Cerdded gyda J a K o Abergwyngregyn i Raeadr Fawr.)

**Trafferth**
(20190208)

Dysg bwyllog sy'n ysgogi, ai gwawd diawl
Â'r hawl i arholi?
Beth yw gwerth trafferth y tri
Ond adwaith? Rhaid yw oedi!

**CleberYBrain**
(20190206)

Cri dirmyg gwŷr sarug eu sain, criw acw'n
Crawcio'u colled milain;
Odlau hafod wylofain:
Penbleth o bregeth y brain.

(Brain castell Rhuthun a gwleidyddion Brecsit yn canu fel un.)

**Gwena!**
(20190203)

Er nacau duwiau duon oed unig
A danodd amheuon;
Briduw, llyw yw gwenu llon,
Ac eli gair o'r galon.

(Steffan Lewis yn sôn fod bywyd yn rhy fyr i falu awyr – yn rhy fyr hefyd i beidio gwenu!)

**CuroFfrainc**
(20190202)

Y cochion gwirion eu gwarth
A dicter haner di-werth!
Daeth arwr, hen ŵr o'r North
A'i fyrdwn i'r sesiwn swrth:
Bysedd hael, a gafael gwyrth!

(Cymru'n curo Ffrainc ar ol fod 16-0 i lawr ar yr egwyl.)

**Trosglwyddo**
(20190201)

Ein natur oedd poeni eto – iffwrdd
Â Fer nos drosglwyddo?
Na! Fel Daniel, safodd, do!
Jiw, jiw, mae'r Jacs yn joio!

(Y Swans heb golli neb yn y ffenestr drosglwyddo.)

**Gwyn**
(20190131)

Godidog, eiraog rhin y bore
I buro 'nghynefin;
Gwaddodol aeafol hin:
Hir oes i siwgwr eisin!

(Eira ar lawr, bendigedig y bore 'ma.)

**NosOAeaf**
(20190131)

Pêr oleuni'r twyni tyner, oriel
Eira ger yr aber,
Canhwyllau'r hwyr, synwyr ser;
Undod yn nuwch Conder.

(Cysgu'r nos yng Nghonder ger Caerhirfryn, yn yr eira!)

**Argoel**
(20190128)

Adar maes â'u trydar mân, ar alwad
Yr heulwen â'r winllan;
O d'wyllwch, da bod allan:
Argoel uwch yw'r bore glân.

(Bore bendigedig i redeg!)

**Ystorom**
(20190127)



Rhuo, hyrddio mae'r wawrddydd, a gwyntog
Antur i ben mynydd;
Eurgain hynt y crognentydd:
Ymchwyddant, rhedant yn rydd.

(Gwynt a chesair ar ben y Daren Wyddon!)

**Tondu**
(20190126)

Ogwr fy nigon:
Mwyn ym Mrynmenyn,
Coeth ym Mryncethin,
Haf o hyd ym Mhontrhydyfen.

(Mynd i Abercynffig am fwyd 'da theulu Penygraig.)

**MinAfon**
(20190125)

Angorfa o'r tyrfaoedd – rhywle gwell,
Cawell o gur cyhoedd;
Draw o'r ing, a'r bling a'r bloedd:
Min afon, dyma nefoedd.

(Yn GG am y penwythnos.)

**Niwl**
(20190120)

I fyned wrth fy hunan – i redeg
Â'r rhod yn pendwmpian;
A'r waun â'u herwau'n arian
O gwlwm oer y gwlaw mân.

(Fel y bedd wrth redeg y bore 'ma.)

**CawodEira**
(20190118)

Gwyngalchu, tyfu mae'r taw, ol ewyn
Y pluo, mor ddistaw'r
Hudwch, yn drwch o'r tu draw:
Dirgel oriel yr eirlaw.

(Eira cynta'r flwyddyn.)

**Cyfalaf**
(20190118)

Aur afiach nod ein crefu – â'r genedl
I'r geiniog yn tyru;
Cydfrad byw serch cystadlu
Er syrffed 'da'r ddyled ddu.

(Diwedd y gân ...)

**Eirwyn**
(20190115)

Gwn ei fod heno'n gwenu'n nhirionder
Nanhyfer a Nefyn;
Mae hiraeth nawr am Eirwyn,
Dwys-ddoniol, goleuol un.

**Cân**
(20190112)

Bore i oedi, brydydd – cana, frawd
Am unawd 'da'r mynydd:
Lloni mae eli'r moelydd
Er bywhau blinderau'r dydd.

(Mynd i redeg cyn dechre ar cant a mil o fanion heddi.)

**Siaradwr**
(20191011)

Rhad argoel fel trawiad ergyd - ffrydiau'r
Cyffredin yn symud;
Bercow'r sylwadau barcud:
Araith gobaith i ni 'gyd.

(John Bercow yn corddi'r dyfroedd!)

**BoreCaled**
(20190110)

Ynfydyn, ffrind y cochyn cu – yn oer
Yn awr, am gynhesu;
Wrlyn o aderyn du
Yw hwn, un crwn yn crynu.

(Oer wrth rhedeg heddiw.)

**Dewis**
(20190109)

O golled, siawns i gallio – o hyrtwch
Hunan-artaeth, deffro'r
Nerth i osgoi trafferth tro;
A'r ateb: caru eto.

(Rowan Williams yn siarad ar Newsnight am Brecsit. Braf clywed llais call.)

**Fry**
(20190108)

'Da'r wawr ar alaw'r wylan – tro hyfryd
O'n hadfyd yw hedfan;
Coronig orig eirian,
Cymdeithasu fry 'da'r fran.

(Yr wylan a'r fran yn hedfan uwch y caeau 'r bore 'ma.)

**MyndAmDro**
(20190107)



Ymafael â natur myfyr – rhodd hael
Ar ddydd y tri doethur;
Awr o wynfyd, penyd pur
Chwerthin cyfeillach Arthur.

(Mynd am dro gyda J, K and theulu W i ben Moel Arthur!)

**Calenig**
(20190107)

Bywyd dyn, plesio'i hunan – oed eiliad,
A'r diawl piau'i anian;
Â thwf unigoliaeth wan
Yn celi gobaith calan.

(Yr un hen broblemau'n rhygnu 'mlaen.)